# Croeso i Lys a Chastell Tretŵr

Cartref gwledig un oedd yn codi yn y byd


## Beth i'w weld yn Llys a Chastell Tretŵr

1. Gweld, clywed a theimlo hanes y llys a'r castell drwy ein harddangosfa clyweledol. Ewch i mewn trwy brif ddrysau Fflat y Stiwardiaid a chael eich trochi mewn dros 900 mlynedd o hanes!
2. Crwydrwch y Tŵr Mawr a'i bedwar llawr. Roedd y tŵr yn arwydd o dra-arglwyddiaeth Roger Picard II, a bu'n help iddo dynhau ei afael dros yr ardal.
3. Mae'r ardd ganoloesol a ailgrëwyd gennym yn wledd i'r synhwyrau ac yn llawn symboliaeth.
4. Dewch i weld lle paratowyd y bwydydd moethus yr oedd gwesteion Tretŵr mor hoff ohonynt.
5. Bydd addurnwaith difyr y Neuadd Fawr yn siŵr o greu argraff arnoch.
6. Mwynhewch yr olygfa i lawr dros y llys o'r rhodfa ben mur a'r oriel.
7. Cymerwch hoe fach haeddiannol yn y sgubor ar ei newydd wedd. Cadwch lygad yn agored am y lle tân fry ar y wal!
8. Mynedfa/siop.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

cadw.llyw.cymru

Mae'r Cymry wrth eu bodd â dreigiau! Gwaetha'r modd, does dim dreigiau'n byw yma, ond rydyn ni wedi cuddio un yn y llun — am hwyl. Allwch chi ei gweld?




Ymunwch â Cadw i fwynhau mynediad diderfyn i 131 o safleoedd hanesyddol

Mae'r heneb hon yng ngofal Cadw, gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae Cadw'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei warchod yn dda. Mae'n drosedd difrodi neu ddifwyno'r heneb.

Taith sain o'r safle ar gael am gost ychwanegol. Am ddim i aelodau Cadw.

### Er eich diogelwch

Gall henebion fod yn beryglus.
Peidiwch â dringo ar yr heneb.
Cymerwch ofal wrth ymweld â'r safle hwn.
Rhaid goruchwylio plant dan 16 oed trwy'r amser.

Tretower Croeso leaflet WELSH v3.indd 1 07/05/2024 16:26